PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 395 | Ionawr 2017



O Fethleham i'r Aifft t.6



Gwifoddoli yn Zanzibar t.14

Gwobr i Caryl t.12





Megan, Efanna a Manon yng Nghapel Bangor



Osian, Capel Bangor

Calennig yn gyfan
ar fore dydd Calan;
un, dau, tri,
blwyddyn newydd dda i chi.

– Anhysbys

Gweler t.13



Enid a Mirain yn Llandre



Gwenno, Guto a Hedd Hughes, Hafodau a Iestyn Jones, Cysgod y Graig yng Ngoginan



Noa, Owain, Dylan, Jacob a Jack yn y goets fu yn Bow Street



Lleucu, Gruffudd a Mabli ap Llywelyn, Rhyd y Ceir, yng Nghapel Madod

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Chwefror**
**Deunydd i law: Chwefror 3 Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 15**

**IONAWR 18** Nos Fercher Gruff Antur yn trafod *Deugain Barddas* Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**IONAWR 20** Nos Wener 'Bridio Defaid o Gymru i Seland Newydd', yng nghwmni Dewi Jones. Cymdeithas Lenyddol y Garn, yn y festri am 7.30

**IONAWR 26** Nos Iau Noson Rasys yn Ysgol Rhydypennau am 6.30.

**IONAWR 27** Nos Wener Noson yng nghwmni Sian James yn Drwm, LLGC am 7.30

**CHWEFROR 1** Dydd Mercher – MAWRTH 25 Dydd Sadwrn Bruce Cardwell: Yma o hyd – yn Oriel y Caffi, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

**CHWEFROR 6** Nos Lun Cyngerdd gan Fand Chwyth Symffonig, Cerddorfa Llinynnol Hŷn, a Chôr Telynau Ceredigion yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 7.30 Tocynnau: £7 Plant ysgol, Myfyrwyr a Phensiynwyr £5. Wrth y drws neu o Cerdd Ystwyth

**CHWEFROR 15** Nos Fercher Lyn Ebeneser yn trafod ei gyfrol Gwersyll Fron-goch Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**CHWEFROR 17** Nos Wener Noson yng nghwmni Manon Steffan Ros, "Ysbrydoliaeth". Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30.

**CHWEFROR 17** Nos Wener Geraint Jarman a'r Gentle Good yn Neuadd Pantycelyn am 7.30 Tocynnau £12

Bydd Cyflwyno gwobr 'Cyfraniad Oes' Gwobrau'r Selar i Geraint Jarman

**CHWEFROR 18** Dydd Sadwrn Gwobrau'r Selar yn Undeb Myfyrwyr Aberystwyth o 17.00 ymlaen

**CHWEFROR 18-19** Dyddiau Sadwrn a Sul Rowndiau cyn-derfynol Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau. Tocynnau ar gael am ddim o 10.00 bore Llun 23 Ionawr trwy ffonio 029 2022 3456 neu ebostio corcymru@rondomedia.co.uk **Ni fydd Côr Cymru ar y nos Wener eleni – bydd dwy sesiwn ar y Sadwrn a'r Sul.**

**CHWEFROR 25** Nos Sadwrn Noson hwyl Ddewi yng nghwmni Côr Dyffryn Dyfi (Arweinydd: Arfon Williams) yn Neuadd Tal-y-bont; cawl am 6.30; adloniant am 7.30 Oedolion £8 Plant ysgol £4. Tocynnau ar gael gan aelodau'r Pwyllgor

**CHWEFROR 28** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog gydag Adloniant yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**MAWRTH 1** Nos Fercher Cawl a Chân yng nghwmni disgyblion Ysgol Rhydypennau. Dathliad Gŵyl Ddewi i'r gymuned gyfan am 6.30 yn Neuadd Rhydypennau. £5 yr oedolyn, £2 i ddisgyblion uwchradd. Tocynnau ar werth gan Delyth Morgan, Pwllglas (820656) neu o'r ysgol (828608). Dewch â phowlen a llwy ar gyfer y cawl – a chroeso cynnes i bawb!


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Rhagfyr 2016

**£25** (Rhif 222) Dinah Henley, Dôl Eglur, Bow Street
**£15** (Rhif 145 ) Iestyn Hughes, 14 Maes-y-Garn, Bow Street
**£10** (Rhif 154) Mary Thomas, Dolgelynen, Llandre

**Gwobrau y Nadolig**
**£60** (Rhif 86) Morris Morgan, Bwthyn, Penrhyn-coch
**£40** (Rhif 56) Richard Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Tachwedd 16

**Mae yn amser ail ymaelodi gyda'r Cyfeillion ond mae yn siomedig gennyf eich hysbysbu efallai fydd y gwobrau yn lleihau gan fod yr aelodaeth yn lleihau. Mae'r swm mae y Cyfeillion yn gynhyrchu yn bwysig iawn i goffrau Y Tincer felly os ydych eisiau cefnogi cysylltwch gyda Bethan Bebb er mwyn cael ffurflen ymaelodi.**

# Eisteddfodau'r Urdd 2017

MAWRTH 2 Dydd Iau Gŵyl Offerynnol Cynradd ac Uwchradd yn Theatr Felin-fach
MAWRTH 8 Dydd Mercher Rhagbrofion Eisteddfod cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y cylch
MAWRTH 8 Dydd Mercher Eisteddfod Uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig
MAWRTH 9 Dydd Iau Eisteddfod Cynradd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
MAWRTH 24 Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 y b
MAWRTH 25 Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00
MAWRTH 9 Nos Iau Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth am 6.00.
MAWRTH 10 Dydd Gwener Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul

# 30 MLYNEDD YN OL



**Tîm pêl-droed Ysgol Penrhyn-coch**
Llun: Arvid Parry-Jones O *Dincer* Ionawr 1987



**Helfa ola'r Fonesig**
Diwedd cyfnod. Y Fonesig yn cynnal ei helfa olaf ger y Llew Du, Bow Street, ar Ŵyl Sant Steffan. Y mae'r Fonesig Pryce wedi cynnal yr Helfa am dros 30 mlynedd yn ddi-dor ac ychydig ddyddiau cyn y Nadolig yr oedd yn dathlu'i phen-blwydd yn 80 oed. Llun: Bill Evans O *Dincer* Ionawr 1987

# Llythyr

**Annwyl Olygydd,**
Gai fanteisio ar eich tudalennau i ddiolch i bawb ddaeth i Sioe Nadolig Cyw yn Ysgol Penweddig ychydig cyn y Nadolig.

Roedd hi'n wych gweld bron i 600 o blant, rhieni ac athrawon yn bresennol. Ar ran Cyw, Huw, Catrin, Dona Direidi, Seren a Lobs, heb anghofio Sion Corn wrth gwrs, ddiolch i chi am y croeso cynnes, yr hwyl a'r gweiddi.

Gan obeithio eich gweld yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont, Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn neu wrth gwrs Nadolig nesaf.

Yn gywir iawn,
**Gwyn Williams**, Cyfarwyddwr Cyfathrebu
S4C

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Capel Pen-llwyn**

*Ionawr*
22 5.00 Roger Ellis Humphreys
29 2.00 Beti Griffiths

*Chwefror*
5 5.00 Bugail Cymun
12 2.00 Bugail
19 Dyffryn 5.00 Carwyn Arthur
26 10.00 Huw Roderick

**Yn anhwylus**

Deallwn fod Mrs Maggie Jones Haulfryn, wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cofion cynnes iddi, a iachad buan.

**Calennig**

Gwelir y nifer fach fu yn hel calennig ar glawr y rhifyn yma._Ystyr calennig yw dathliad y Flwyddyn newydd. Mae derbyn a rhoi yn hen draddodiad, a'r arferiad o blant yn mynd o dy i dy, gan ddymuno iechyd a llwyddiant yn ystod y flwyddyn i ddod.

Byddent yn canu a derbyn anrhegion, o fwyd ac arian, am eu trafferth.

Felly byddai yn drueni, colli yr hen draddodiad yma, er fod llai o nifer yn cadw yr hen arferiad erbyn hyn. Paham tybed? Mae llawer o resymau mae'n siwr.

**Eglwys Dewi Sant**

Ar nos Wener, 2 Rhagfyr cynhaliwyd noson goffi a raffl fawr yr Eglwys. Yn dilyn cafwyd adloniant hyfryd gan Gôr y Gen. Adloniant arbennig a diwylliannol dan arweinyddiaeth Gwyneth Davies gyda Carys yn cyfeilio i'r côr. Diolch i aelodau yr Eglwys; Y Cynghorydd Rhodri Davies; Dan a Melanie Hughes, Siop yr Exchange am eu cyfraniadau tuag at y gwobrau raffl. Braf oedd gweld cymaint wedi troi allan ar y noson. Croesawyd pawb gan Y Parchedig Andrew Loat a thalwyd y diolchiadau hefyd ganddo.

Ar nos Sul, 18 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth carolau yng ngolau'r gannwyll dan arweinyddiaeth Y Parchedigion Andrew a Heather Loat. Mi ddarllenwyd 9 llith gan y canlynol: Gwynfor Jones, Iris Richards, Llinos Jones, Mia Howells, Nannon Jones, Sarah Hughes, Lowri Jones, Nancy Evans ac Andrew Loat. Yr organydd oedd Mr Maldwyn James. Braf gweld yr eglwys yn llawn o gynulleidfa. Mi addurnwyd yr eglwys yn hyfryd gan yr aelodau. I orffen, cafwyd paned a mins peis yn Neuadd yr Eglwys. Casglwyd £132.69 ar y noson ac mi roddwyd yr arian tuag at Beiciau Gwaed Cymru (Blood Bikes Wales).

Ar noswyl Nadolig, cynhaliwyd gwasanaeth Cymun Bendigaid am yr 2il dro dan arweinyddiaeth Y Parchedig Heather Evans am 11.00 yr hwyr. Hefyd ar fore dydd Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth Cymun Bendigaid dan arweinyddiaeth Y Parchedig Heather Evans am 9.30 y bore.




Da iawn Efanna, ennillydd (merched) dan 8 oed, y gyfres "Cyclocross" yng Ngynghrair 2016 dros Gymru.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 15 Tachwedd, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gydag Eirian Reynolds yn y gadair. Roedd pawb o'r cynghorwyr yno ond am dri. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Trefor Davies, Mel Evans a Tegwyn Lewis; roedd y Clerc hefyd yn bresennol.

Materion yn codi: Tir ger Horeb - roedd y Cyngor Sir wedi anfon i ddweud y byddai'r tir gyferbyn â Horeb yn cael ei addasu'n fan parcio yn fuan, a chroesawyd hyn. (Erbyn hyn, mae'r gwaith hwn wedi ei wneud.) Bolards rhwng Pant Drain a Bronheulwen - o'r diwedd, roedd y rhain wedi cael eu gosod. Ger-y-llan - byddai Dai Mason ac Eirian Reynolds yn cyfarfod swyddog o Gyngor Ceredigion ddiwedd y mis i drafod y goleuadau yn Ger-y-llan. Y twll yn y ffordd ger Glan Ffrwd - roedd y Cyngor Sir wedi rhoi gwybod y byddai'r twll hwn yn cael ei lenwi'n fuan. Croesawyd y newydd hwn gan fod y twll mewn man gwirioneddol beryglus, ac roedd wedi bod yn achos trafferth ers misoedd lawer. (Mae hyn hefyd wedi cael ei wneud erbyn hyn.) Tir ger Glanceulan - gan nad oedd y tir yn perthyn i'r Cyngor Sir, penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn trefnu i'w gadw'n daclus, gan ei fod yn ddarn mor fychan.

Cynllunio: Cais A160276 - roedd y Cyngor wedi cael hysbysiad fod Mrs M James wedi apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer annedd dros dro yn gysylltiedig â menter wledig ar dir ger Gwelfor, Penrhyn-coch. Cynllun AIEC yng Ngogerddan - yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym Mhenrhyn-coch ar 18 Hydref, roedd y Cyngor wedi anfon ymateb i'r cwmni oedd wedi trefnu'r cyfarfod. Y pwynt pwysicaf a wnaed oedd y dylid lledu'r ddwy ffordd oedd yn arwain at safle'r datblygiad o'r ffordd fawr. Roedd y ffyrdd presennol yn gul, a byddai eu lledu o fantais pan fyddid yn adeiladu'r ganolfan newydd, ac wedi hynny.

Materion eraill: Ciosg ffôn - roedd BT wedi cysylltu i ddweud am eu bwriad i gael gwared â chiosgs ffôn. Penderfynwyd mynd yn ôl atynt i holi am y posibilrwydd y gallai'r Cyngor gymryd gofal am yr un wrth y Post. Llwyn Prysg - roedd Edwina Davies wedi derbyn diolch am y gwaith cynnal a chadw a wnaed yn ddiweddar ger Llwyn Prysg; roedd y person hefyd wedi holi a fyddai'r Cyngor Sir yn ystyried ailgychwyn casglu sbwriel yno. Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch - cafwyd gwybod fod Tegwyn Lewis yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn llywodraethwr yn dilyn ei anhwylder diweddar; dewisodd y Cyngor Shân James i lenwi ei le.

Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr.

# LLANDRE




Sulwyn Thomas, Caerfyrddin, Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru yn derbyn cyfraniad i'r elusen gan Wynne Melville Jones, Cadeirydd Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn. Codwyd £500. i gefnogi Llyfrau Llafar Cymru mewn Noson Nadoligaidd gymunedol lwyddiannus a drefnwyd gan y Banc Bro yn Bethlehem ar nos Wener Rhagfyr 2. Mae'r elusen yn darparu gwasanaethau gwerthfawr iawn i'r rhai sy'n dioddef diffyg gweledol, a hynny dros Gymru gyfan, drwy ddarparu llyfrau deunydd darllen ehangach ar ddisgiau sain. Roedd Diana a Huw Ceiriog hefyd yn yn y cyflwyniad yn cynrychioli aelodau'r Banc Bro a dymunwn ddiolch iddyn nhw a phawb arall a fu mor gefnogol a brwdfrydig i sicrhau llwyddiant y noson hon. Daw gwybodaeth am weithgareddau'r Banc Bro eleni yn ystod y flwyddyn trwy gyfrwng Y Tincer ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni eto yn 2017. Rhaid atgoffa pawb bod angen adnewyddu taliadau y Clwb 50 yn ystod mis Ionawr drwy gysylltu a Lynwen a Richard Evans, Llawr y Glyn.

# TREFEURIG

**25 mlynedd**

Roedd Meriel Ralphs yn un o dri archifydd oedd yn dathlu 25 mlynedd o weithio yn y Llyfrgell Genedlaethol ddechrau Ionawr.

**Cerddorol**

Llongyfarchiadau i Gronw a Betsan Downes, Glanrafon, ar eu llwyddiant cerddorol diweddar. Cafodd Betsan glod yn ei arholiad ffidil gradd 3, a Gronw anrhydedd yn ei arholiad trombôn gradd 5. Da iawn chi, a daliwch ati!

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Merfyn Hughes, Trawsnant, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau**

**Madog**

**2.00**

*Ionawr*

22 John Tudno Williams

29

*Chwefror*

5

12 John Roberts

19 Bugail

26 R W Jones



**Priodas**

Yng Nghapel Madog ar yr 8fed o Hydref 2016 priodwyd Anwen, merch hynaf Alwyn a Margaret Hughes, Gellinebwen, Capel Madog â Mr Berwyn Roderick o Crai, ger Pontsenni. Cafwyd diwrnod i'r brenin ac mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu yn Dan-y-Graig, Crai. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Islwyn ac Evelyn Morgan, Cefnvaenor, Capel Dewi, ar farwolaeth eu hannwyl ferch Lowri. Rydym yn meddwl amdanoch.

# DOL-Y-BONT

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau i Sophie Fletcher ac Owain James, Glengyle, ar eu dyweddiad ychydig cyn y Nadolig. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

# Y BORTH



### Arddangosfa
Bydd arddangosfa Bruce Cardwell: Yma o hyd – ffotograffiaeth Bruce Cardwell, testun Elin ap Hywel a thalentau paentio Rhodri Evans i'w gweld yn Oriel y Caffi, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth o ddydd Mercher Chwefror 1af hyd dydd Sadwrn Mawrth 25

### Ysgol Sul St Matthew
Dechreuodd y Nadolig yn St. Matthew gyda gwasanaeth coeden Nadolig ar Ragfyr 11eg. Edrychai y coed yn hyfryd yn y ffenestri a dewiswyd y carolau gan wahanol grwpiau'r pentref.

Ar Ragfyr 18fed cyflwynodd plant a ieuenctid yr Ysgol Sul eu fersiwn o Stori'r Geni. Roedd yn dda gweld cymaint o bobl yn y gynulleidfa yn cefnogi y bobl ifanc arbennig yma. Dechreuodd y stori gydag Andrew – un o dadau yr Ysgol Sul - yn canu carol hyfryd gyda chyfeiliant ar y gitâr. Adroddodd aelodau hŷn yr Ysgol Sul y stori a berfformiwyd gan y grwp iau a chyfeiliodd Toohey, Josh, Erin, Oliver ac Eliza eu hofferynnau cerddorol. Roedd yn berfformiad arbennig.

Ar Ragfyr 24ain roedd yr eglwys yn orlawn ar gyfer y Gwasanaeth Carolau yng ngolau cannwyll. Roedd yn wych cael bod yn rhan o grwp mor fawr mewn mawl.

Dechreua pob gwasanaeth ar y Sul am 11.15 a byddai croeso cynnes i chi yn unrhyw un o'r gwasanaethau.

### Cymdeithas Henoed y Borth
Cafodd Henoed y Borth Nadolig diddorol iawn a phrysur. Dechreuodd efo taith siopa wych i Henffordd, bwrdd proffidiol yn ffair hynod lwyddiannus yr elusennau yn Neuadd Gymunedol y Borth, te parti Nadolig a chwis hefyd yn Neuadd y Borth a phryd arbennig o flasus yn Llety Parc yn Aberystwyth. Ar ôl y pryd cawsom ein diddanu gan fand pres Ysgol Penweddig yn cael ei arwain gan Mr. Alan Phillips. Ar ben y cyfeilio i'n canu carolau chwaraeodd y band ddarn arbennig i ni roddodd ddiwedd hyfryd i'r diwrnod. Ein diolch i bawb gyfrannodd i Nadolig Cymdeithas Henoed y Borth. Dechreuodd y Flwyddyn Newydd i'r Henoed gyda The Calan ar Ionawr 12fed a Chyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar Ionawr 19eg am 2.00. Blwyddyn newydd dda gan bawb yng Nghymdeithas Henoed y Borth.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

### Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Mrs Lyn Thomas, Glyn Werydd, ar farwolaeth ei hefaill Menna ym Mhontarddulais.

### Codi £10,000
Da clywed fod taith O Fethlehem I'r Aifft Cymorth Cristnogol wedi codi £10,000. Gwelir yma y daith yn croesi o Ynys-las i Aberdyfi.







### Glanwern
### Cydymdeimlad
Estynwn ein cydymdeimlad gydag Evan ac Elisabeth Evans a'r teulu, Perllan Hen, ar farwolaeth sydyn chwaer Evan, sef Rhiannon Horwood o Bow Street

## O'r Cynulliad Elin Jones



Hoffwn ddechrau'r flwyddyn trwy ddiolch i holl aelodau staff y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau brys, yn enwedig y rhai a weithiodd, yn ddi-baid, dros gyfnod y Nadolig. Mae eu hymroddiad i'w gwaith yn eithriadol, ac fe wyddom fod pawb a oedd yn gorfod treulio amser yn yr ysbyty dros y cyfnod yn ddiolchgar iawn am amser a chyfeillgarwch y staff yno.

Mae sicrhau dyfodol Ysbyty Bron-glais fel canolfan iechyd i Geredigion a'r canolbarth yn hollbwysig i'n hiechyd ni i gyd. Mae'n rhaid i ni sicrhau, o hyd, bod y dechnoleg orau ar gael i ni, a bod yr adnoddau priodol yno ar gyfer ein pobl. Roeddwn yn falch iawn, felly, gyda datganiad y Llywodraeth cyn y Nadolig y byddai Ysbyty Bron-glais yn derbyn buddsoddiad ar gyfer sganiwr MRI newydd. Fe fydd y peiriant yn siŵr o chwarae rhan bwysig yng ngwaith yr ysbyty dros y blynyddoedd sydd i ddod, ac yn bendant yn achub a gwella bywydau nifer yn ein hardaloedd.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi yn ddiweddar hefyd y bydd, o ganlyniad i'r cytundeb gyda Phlaid Cymru y llynedd, yn agor cronfa triniaeth newydd gydag £80 miliwn i gyflymu mynediad at y meddyginiaethau diweddaraf un. Arweiniodd y system anghyfartal flaenorol at anghysondebau mewn hygyrchedd at gyffuriau mewn gwahanol ardaloedd ar draws Cymru.

Fe fydd y cytundeb i ymrwymo'r arian dros y pedair blynedd nesaf yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i nifer o etholwyr sy'n cael trafferth derbyn y cyffuriau neu'r driniaeth sydd angen arnynt ar frys.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo'n ddiweddar i sefydlu Strategaeth Dementia, y cyntaf o Lywodraethau'r DU i wneud hynny. Mae 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia ar hyn o bryd, ac mae teuluoedd llawer o etholwyr yng Ngheredigion sydd â dementia wedi cysylltu â mi, yn pryderu am eu gofal yn y tymor hir. Mae'r strategaeth hon yn rhoi cyfle gwych ar gyfer gosod targedau clir er mwyn gwella ansawdd bywydau, a gobeithiaf y bydd yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynyddu dealltwriaeth o dementia a'r ffyrdd gorau i helpu pobl.

Rwy'n parhau i gwrdd yn rheolaidd â swyddogion Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac yn parhau i bwyso am gynnydd mewn cynlluniau newydd ac ar amseroedd aros. Yn ddiweddar, rwyf wedi codi mater gofal orthodonteg i bobl ifanc yng Ngheredigion, a hefyd wedi codi'r cynlluniau ar gyfer Tregaron ac Aberteifi. Rwy'n falch i weld bod pethau'n datblygu, ond mae'r prosiectau hyn wedi bod ar y gweill am amser hir, mae'n hen bryd yn awr i weld cychwyn ar y gwaith adeiladu.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn £120; hanner tudalen £80; chwarter tudalen £50. Maint i fyny i 4cm x 6cm, £40 am ddeg rhifyn (£4 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £6 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Maint dros 4cm x 6 cm a lan i 6cm x 9cm, £60 am ddeg rhifyn (£6 y rhifyn am 6-10 rhifyn / £8 y rhifyn am 1-5 rhifyn). Cysyllter â'r Trysorydd.

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## GOGINAN

### Anrheg Nadolig

Fe ddaeth yn amser unwaith eto i henoed Goginan ddiolch am eu hanrheg blynyddol sydd yn cael ei roi i bawb dros 70 sydd yn byw yn yr ardal ac mae ein diolch i Iris Richards, Brodawel, a Mair Jones, Coedlan, am brynu y tocynnau ac i Gareth Jones, Coedlan, a Carol Jones, Is y Coed, am wneud yn sicr eu bod yn cyrraedd y cartrefi.

## CWMRHEIDOL

### Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Noragh Jones, gweddw Ken Jones, yn Ysbyty Coleg Prifysgol Llundain ar 28 Rhagfyr. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r ferch Carol a'i theulu. Cynhelir gwasanaeth angladd cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth am 3.00 bnawn Gwener 20 Ionawr.

**owain bebb a'i gwmni**
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*
Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa, Aberystwyth SY23 1AS
Caernarfon 01286 677 624
Pwllheli 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# PENRHYN-COCH

### Suliau

**Horeb**

*Ionawr*

22 10.30 Y Parchg Judith Morris
Clwb Sul Horeb/ S.Ioan – yn Horeb

29 10.30 Y Parchg Raymond Jones
Dim Clwb Sul

*Chwefror*

5 2.30 Oedfa gymun Y Parchg Peter Thomas
12 10.30 Oedfa deuluol Y Parchg Peter Thomas
19 10.30 Clwb Sul – Horeb
2.30 Kieran Owen
26 10.30 Tecwyn Jones
Clybiau Sul Horeb/S.Ioan – yn S.Ioan

### Cywiriad

Yn rhifyn Rhagfyr coeden Neuadd y Penrhyn oedd yr un fach wen – nid un Sefydliad y Merched.

### Diolch

Hoffai PATRASA ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi Marchnad Nadolig Penrhyn-coch. Bu'n brynhawn llwyddiannus iawn gyda dros 25 o stondinau, ymweliad gan Siôn Corn a £1,144.95 wedi ei godi tuag at barc Penrhyn-coch.





### Gwasanaeth Nadolig Horeb

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig Horeb brynhawn Sul 18 Rhagfyr dan ofal y Parchg Peter Thomas. Darllenwyd gan Gwenno ac Annwen Morris, gweddiwyd gan Derfel Reynolds a chafwyd unawd gan Bryn Roberts ac eitem gerddorol gan y Parti Merched dan arweinyddiaeth Mair Evans. Addurnwyd y capel y nhardd gan Mairwen Jones. Cafwyd cyflwyniad gan ddisgyblion y Clwb Sul a daeth Sion Corn ar ymweliad trwy gyda chymorth Richard Owen.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Carys Harris, Ger-y-llan, a gafodd driniaeth yn yr ysbyty ar ôl damwain yn ei chartref.

### O'r ysbyty

Da deall fod Henry Thomas, Cwmfelin, gartref o'r ysbyty.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu a chysylltiadau y diweddar Richard (Todd) Thomas, Berwynfa gynt.

### Diolch

Dymuna Mairwen ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a galwadau cartref a dderbyniodd ar ôl ei hanwylder yn ddiweddar. Am yr holl ofal a dderbyniodd yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Heb enwi neb, ga'i ddiolch yn fawr i bawb a phob bendith arnoch.

### Cantre'r Gwaelod

Yn y gyfres o Crwydro gyda Bedwyr Rees ar S4C am 8.30 ar nosweithiau Sul yn Ionawr bydd Dr Rhiannon Ifans, Rhandir, yn sôn am chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae'n debyg mai yn y rhaglen ddarleddir ar Ionawr 29 fydd hyn.

### Plygain

Nos Iau 15fed Rhagfyr cynhaliwyd y 26ain blygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch. Gweinyddwyd gan y Parchedig Lyn Lewis Dafis; darllenwyd y llith gan y Parchg Peter M. Thomas a'r organydd oedd Eirwen Hughes. Canodd Ysgol Penrhyn-coch a'r Parchg Lyn Lewis Dafis yn y cylch cyntaf a gan y canlynol yn y ddau gylch: Parti'r Penrhyn; Marianne Jones–Powell; Rhun,Prysor a Robin; Linda Griffiths; Parti Glanrafon; Parti Pen-y-graig; Cantorion Aberystwyth; Trefor a Rhiannon a Cantre'r Gwaelod. Dilynwyd y gwasanaeth gan swper o gawl a tharten afal yn Neuadd yr Eglwys wedi ei baratoi gan Barti'r Penrhyn. Cyflwynwyd y casgliad o £208.60 i gronfa Cymorth Cristnogol O Fethlehem i'r Aifft.

Talodd y Parchg Peter Thomas y diolchiadau.

Bu Parti'r Penrhyn o amgylch dipyn o blygeinie yn ystod y tymor yn ôl eu harfer. Ar nos Sul gyntaf y flwyddyn yn Eglwys Llanerfyl da oedd gweld y Parchg David Francis – na fu yn dda ei iechyd yn ddiweddar – yn cyfeilio wrth yr organ ac wedi gwella yn dda. Cafwyd sgwrs am sefydlu y blygain ym Mhenrhyn-coch.

Dyma un garol ganwyd yn Llanerfyl gan Arwyn Groe – cerdd a gyfansoddodd ei hun ac a ganodd ar yr alaw 'The green fields of France'. Diolch i Arwyn am ganiatâd i'w chyhoeddi yn y Tincer.

## Carol y Glascoed

Mae'n Nadolig yn Syria,
Mae'r plantos yn glud,
Ond mae Herod yn chwilio
Pob llofft a phob crud
Am blentyn a dyfa
I herio ei drefn,
Cyn plannu ei fwled
Ynghanol ei gefn.

Mae'n Nadolig ar Putin
Assad ac ar May,
Ar Trump ac Obama
A Farage Iw Cê,
Bu'r gwinoedd yn llifo
A dathlu a wnaed,
A'u dwylo yn goch
Nid gan win ond gan waed.

Ond pwy ydw innau
I bwyntio fy mys,
Â chogie o Gymru
Yn laddar o chwys,
Mewn ffatri'n Sir Fynwy
Mae'r cogie'n llawn hwyl –
Mae nhw'n stopio 'neud arfau
I ddathlu yr ŵyl.

*Cytgan*
Draw draw yn Aleppo'n
Y strydoedd bach cefn,
Mae 'na blentyn yn gorwedd
Na heriodd y drefn,
Mae dur Glascoed, Sir Fynwy,
Ynghanol ei ben,
A'i garol yn gorffen
Â'r geiryn, Amen.


**Arwyn Groe**
Canwyd ar The green fields of France

# Taith gerdded y mis

## Eisteddfa i ben Pumlumon Fawr

**Man dechrau**: Maes parcio Eisteddfa Gurig (tâl).
**Map**: OS Explorer 213. GR 798842.
**Pellter**: 5.5 milltir. Dringo graddol.

O'r maes parcio cerdded rhwng yr adeiladau i gyrraedd y feidr. Cadw i'r dde ar ôl yr afon a dringo yn raddol nes cyrraedd olion yr hen waith mwyn. Chwilio am bostyn ar y chwith a dilyn y llwybr i fyny i ben y mynydd. 'Nôl dros y sticl a dilyn y ffens lawr heibio'r goedwig a throi i'r chwith pan gyrhaeddwch feidr a'i dilyn 'nôl i'r man dechrau.




CYLCH MEITHRIN TREFEURIG

Annwyl ddarllenwyr ieuengaf Y Tincer,
Yn 2017, bydd ein **Clwb Gwyliau** yn cael ei ail-lansio, ac **ry ni angen eich help**! Allwch chi ddylunio logo newydd ar ein cyfer? Mae gwobrau i'w hennill, felly beth am geisio creu un dros yr wythnos au nesaf?
Mae 4 adran:

1. Plant Ysgol Penrhyn-coch
2. Plant Cylch Meithrin Trefeurig
3. Plant Clwb Caban
4. Unrhyw blentyn arall sy'n byw yn ardal *Y Tincer.*

Bydd gwobr i enillydd bob adran, ac fe ddewisir y logo newydd o blith yr enillwyr rheiny.
Dyddiad cau: 5 o'r gloch, dydd Gwener, Ionawr 6ed 2017.
Anfonwch eich cynigion at cmtrefeurig@gmail.com neu gadewch nhw gyda Lynwen yn Garej Tŷ Mawr.
(Mae'r Clwb Gwyliau ar agor i unrhyw blentyn rhwng 3 ac 11 oed. Does dim rhaid iddyn nhw fod yn mynychu Ysgol Penrhyn-coch. Mae'r Clwb Gwyliau ar agor o 8yb-6yp. Gweithgareddau yn cynnwys crefft, Sinema'r Caban, gêmau, cyfrifiadur, teithiau allanol a llawer iawn mwy).

# Deugain mlynedd o newid

**Gyda BBC Radio Cymru yn dathlu'r deugain ym mis Ionawr eleni dyma gyfle i bwyso a mesur rhai o'r newidiadau ym myd y cyfryngau dros y ddeugain mlynedd ddiwethaf.**

Yn aml mae'r plant (a rhai o'm myfyrwyr i fod yn onest) yn holi sut brofiad oedd gwylio teledu pan rown i'n ifanc. Wel, a minnau'n bwrw'r 50 oed eleni, plentyn y saithdegau ydw i, ac o safbwynt adloniant ar y teledu, roedd tair sianel – BBC1, BBC2 ac HTV. A dyna fe. Ac os oedd rhywun am newid o un sianel i'r llall roedd rhaid codi oddi ar y soffa, cerdded at y set deledu a gwasgu botwm. Ar ambell set deledu, yn ogystal â botymau ar gyfer y sianeli grybwyllwyd eisoes, roedd botwm 'ITV2'. Roedd rhyw ddirgelwch yn perthyn i'r botwm hwn – doedd dim fath sianel ag ITV2 yn bodoli felly beth ar y ddaear oedd e? Wel, erbyn canol y saithdegau fe ddaeth hi'n amlwg fod yna donfeddi sbâr fyddai'n caniatàu pedwaredd sianel teledu. Yn dilyn Adroddiad Pwyllgor Pilkington ar ddarlledu ym 1962, lansiwyd ail sianel y BBC ym 1964, sef BBC2. Y disgwyl nawr oedd y byddai ITV yn cael ail sianel er mwyn cydbwysedd ac aeth nifer fawr i wneuthurwyr setiau teledu ati i gynhyrchu setiau fyddai'n barod ar gyfer y datblygiad technolegol nesaf. Ond, fel y gwyddom erbyn hyn, rhoddwyd yr hawl i ddarlledu ar y bedwaredd sianel i Awdurdod S4C yng Nghymru (a'r Awdurdod Teledu Annibynnol trwy Channel Four i weddill gwledydd Prydain) o 1982 ymlaen.

Roedd oriau darlledu yn ystod y saithdegau a'r wythdegau dal braidd yn gyfyngedig. Doedd dim fath beth â theledu brecwast (a diolch i Hywel Gwynfryn, felly, a'i raglen *Helo Bobol,)* am ein diddanu yn foreol ar Radio Cymru o fis Ionawr 1977 ymlaen!). A phen arall y dydd, daeth rhaglenni i ben rhwng 11.00 yr hwyr a hanner nos gyda'r anthem(au) ... a phwy arall sy'n cofio rhythu ar y sgrîn nes bod y smotyn gwyn bach wedi diflannu'n llwyr...? Dechreuodd teledu brecwast ym mis Ionawr 1983 gan y BBC a TV-am (ar ITV) yn dilyn ym mis Chwefror yr un flwyddyn. Gyda'r chwyldro ddaeth yn sgîl polisiau darlledu Llywodraeth Thatcher a Major ar ddiwedd y 1980au a dechrau'r 1990au, gwelwyd yr oiau darlledu yn ehangu ynghyd â nifer y cwmniau oedd yn darlledu – a hynny bellach ar lwyfannau traddodiadol daearol (trwy'r trosgwlyddyddion) a llwyfannau newydd megis cêbl a lloeren.

Mae'r newidiadau ysgubol ym myd y cyfryngau darlledu dros y ddeugain mlynedd diwethaf yn aruthrol – mae'r tirwedd darlledu wedi newid y tu hwnt i bob dirnadaeth. Mae adroddiadau diweddar y rheoleiddiwr cyfathrebu. OFCOM, yn dangos bod y ffordd yr ydym yn derbyn newyddion, adloniant a gwybodaeth yn newid gyda thwf a phoblogrwydd y cyfryngau cymdeithasol. Gyda phob datblygiad cyfryngol fel a welwyd ers y 1970au, am bob un sydd yn gweld cyfleoedd newydd a chyffrous mae yna un sydd yn gweld y peth fel bygythiad neu gam yn ôl. Does dim amheuaeth bod y byd cyfryngol wedi newid – a phwy a ŵyr beth – a sut - fydd darllenwyr *Y Tincer* yn gwylio ymhen deugain mlynedd arall.

**Jamie Medhurst**

## CANLYNIADAU'R GYSTADLEUAETH

Diolch i'r rhai ohonoch gymerodd ran yn ein cystadleuaeth (a diolch i Gareth Wiliam Jones am drefnu). Rhoddwyd enwau y rhai gafodd y cwestiynau yn gywir mewn het ac ym mhresenoldeb tyst yng Nghanolfan Crefftau Pennau tynnwyd enwau o gap. Ann Jones, Blaenddôl, enillodd y tocyn llyfr £20; Maria Evans, Alltwalis enillodd *Y gwreiddyn* (Caryl Lewis) a Richard Huws, Bont-goch enillodd *Allez les Gallois* (Daniel Davies). Mwynhewch y darllen!

# BOW STREET

**Suliau**
**Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**
*Ionawr*
22 John Tudno Williams
29 Lyndon Lloyd (Oedfa'r bore yn unig)

*Chwefror*
5 Noddfa
12 John Roberts
19 Bugail (Cymun)
26 R W Jones

**Noddfa**
*Ionawr*
29 Oedfa Undebol yr Ofalaeth ym Methel, Tal-y-bont am 10.00

*Chwefror*
5 Oedfa am 10.00. Gweinidog.
12 Uno yn y Garn am 10.00
19 Cyfeillach am 10.00
26 Oedfa am 2.00. Gweinidog

Ysgol Sul Bow Street
Dyma fanylion tymor newydd yr Ysgol Sul Unedig:
29 Ionawr Y Garn
5 Chwefror Noddfa
12 Chwefror Noddfa
19 Chwefror Gwyliau Hanner Tymor
26 Chwefror Gwyliau Hanner Tymor
5 Mawrth Y Garn. Gwasanaeth Gwyl Ddewi.

**Penodiadau**
Llongyfarchiadau i Gwenith ap Robert John sydd wedi cael ei phenodi yn bennaeth cynorthwyol Ysgol Gynradd Plas-crug. Mae Gwenith yn gyn ddisgybl o Ysgol Rhydypennau a Phenweddig.

Cyhoeddwyd hefyd yn ddiweddar i Archesgob Cymru benodi Rhun Gwynedd ap Robert yn Ficer Tîm i blwyf rheithorol Aberafan. Llongyfarchiadu iddo ef a'i wraig Magda sydd newydd ddechrau ar ei swydd newydd fel Seicolegydd yn Abertawe. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Ian a Gwen Cole, Y Marian, ar farwolaeth Rhydwen Cole - mam Ian - o Aberaeron, yng Nghartref Plascwmcynfelin ar 3 Rhagfyr; hefyd â nifer o drigolion Maes-y-garn sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar – Mrs Jean Davies ac Iwan a'r teulu ar golli brawd i Jean – David o Dregaron yn Ysbyty Treforus ar Ragfyr 18fed; â Marian Beech a Iestyn Hughes, ar golli mam Marian o Lanefydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar Ragfyr 28ain; â Linda Gay, ar golli ei brawd yn ne Lloegr ac â Buddug Jenkins ar golli cefnder ym Mryn-crug, Tywyn – roedd ef hefyd yn ewythr i Freda Morris, Bryn Meillion, ac mae ein cydymdeimladau gyda hithau hefyd. Cofiwn yn annwyl iawn atoch gan obeithio y bydd yr atgofion yn gynhaliaeth a`r sylweddoliad eu bod wedi cyfoethogi eich profiad ar daith bywyd yn ysbrydoliaeth.

**Geni wyres**
Llongyfarchiadau i'r Parchg W. J. a Mrs Gwenda Edwards, Tregerddan ar ddod yn daid a nain – ganwyd wyres iddynt – Erin Hana ar 28 Rhagfyr – merch i Non a Carwyn.

**Arweinydd prysur**
Clywyd Aled Myrddin, 1 Cae Rhos, a'i Gôr – Côr Meibion Machynlleth – ar y rhaglen radio 'Tri 'ym ni' a ddarlledwyd dros y Nadolig. Rhaglen oedd hi gyda Tri Thenor Cymru yn dathlu'r Nadolig ar fferm Pentremawr, Llanbryn-mair gyda'u gwesteion. Ffurfiwyd y Côr rhyw 2 flynedd a hanner yn ôl ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod. Soniodd eu bod yn brysur gyda chyngherddau lleol a bod posibilrwydd o daith i Ganada ymhen rhyw ddwy flynedd. Fe'u dewiswyd hefyd fel un o bedwar Côr Meibion yn y rownd honno o Côr Cymru. Amser prysur felly – dymuniadau gorau!

**Arweinydd arall**
Bydd ail un o'r pentref yn arwain Côr yng nghystadleuaeth Côr Cymru – llwyddodd Côr ABC i fynd drwodd i'r rownd derfynol yn yr adran Corau Cymysg– pob dymuniad da i'r arweinydd Gwenan Watts Williams.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Rhiannon Horwood, Delfryn, fu farw ddechrau'r mis. Bu Rhiannon yn gysylltiedig â chartref Tregerddan am flynyddoedd lle roedd yn fawr ei pharch.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Cafodd aelodau'r gangen noson gartrefol braf yn festri'r Garn i ddathlu'r Nadolig nos Lun, 12 Rhagfyr. Llywyddwyd y noson gan Mrs Ann Jones ac ymunodd pawb i ganu ambell garol gyfarwydd, gan greu naws Nadoligaidd hyfryd. Dangosodd Marian Beech Hughes gasgliad o gardiau Nadolig cynnar yr oedd ei thaid wedi'u derbyn gan ffrindiau a pherthnasau yn ei ieuenctid, dros ganrif yn ôl – un ohonynt wedi'i anfon gan ei frawd o Seland Newydd.





Cardiau bychain â lluniau o flodau a golygfeydd amrywiol oedd y rhain – ac yn wahanol iawn i'r cardiau Nadolig rydyn ni'n gyfarwydd â nhw heddiw.

Soniodd Shân Hayward am arferion teulu ei merch yng nghyfraith yn Awstria yn ystod cyfnod yr Adfent. Mae'r teulu estynedig yn dod at ei gilydd bob Sul i gymdeithasu a bwyta gwledd o fwydydd arbennig, ac yr oedd Shân wedi paratoi nifer o'r danteithion blasus hyn ar ein cyfer.

Cwis hwyliog, yn seiliedig ar daflen y Cyngor Llyfrau 'Gwledd y Nadolig', a gafwyd gan Eirian Dafis, a dyfal fu'r darllen a'r chwilio am yr atebion i'r cwestiynau cryptig ar dudalennau'r cylchgrawn.

Yna, mwynhawyd amrywiaeth o flasusfwyd Nadoligaidd, wedi'i baratoi gan rai o aelodau'r pwyllgor, a derbyniodd pawb anrheg fach gan y 'Santa dirgel' i fynd adref gyda nhw.

Croesawodd Ann Jones, ein llywydd, ni yn gynnes iawn gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda. Cydymdeimlwyd â Marian

## Cawl a Chân

yng nghwmni disgyblion Ysgol Rhydypennau.

**Nos Fercher Mawrth 1af**

Dathliad Gŵyl Ddewi i'r gymuned gyfan am 6.30 yn Neuadd Rhydypennau.
£5 yr oedolyn, £2 i ddisgyblion uwchradd. Tocynnau ar werth gan Delyth Morgan, Pwllglas (820656) neu o'r ysgol (828608). Dewch â phowlen a llwy ar gyfer y cawl – a chroeso cynnes i bawb!

Beech Hughes, wedi colli ei Mam; Jean Davies, ei brawd; Mair Davies, cyfnither, a mab yng nghyfraith i Meinir Roberts. Ond ar nodyn hapus iawn rhaid oedd llongyfarch Gwenda a Bil Edwards ar ddod yn Nain a Taid i Erin Hanna.

Daeth peth gohebiaeth o'r Ganolfan ynglŷn â'r gweithgareddau fydd ymlaen yn ystod y flwyddyn. Yn anffodus methodd Carys Stevens, ein gwraig wadd, ddwad heno, felly rhaid oedd meddwl am rywbeth ar fyr rybudd! Dyma benderfynu ar gêmau bwrdd - daeth rhai ohonom a gêmau a chawsom hwyl iawn. Pawb wrthi yn ddygn iawn ond yn cael sgwrs hefyd. Enillwyd y raffl gan Mary Thomas. Maria Owen a Joyce Bowen oedd yng ngofal y baned

### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Will Hughes, Llys Hafod, (gynt o Cardi Cycles) ddathlodd ei ben blwydd yn 80 oed ar Ionawr 7fed. Treuliodd amser yn yr ysbyty ym mis Rhagfyr yn cael triniaeth yng Ngobowen a'r Amwythig. Da iddo gael dod adref erbyn y dathliadau!!

### Hoci Rhyngwladol

Pan yn chwarae i Dîm hoci Gogledd Cymru mewn twrnament hoci yn Nottingham ym mis Mehefin 2016 cafodd Dafydd Jones, Tywyn - mab Mair a Hefin Jones, Tywyn ac ŵyr Elen Evans, Erw Las – ei ddewis gan sgowtiaid i chwarae i dîm hoci UK Lions o dan 14 oed. Dyma'r ail flwyddyn iddo gael ei ddewis i chwarae i'r tîm yma. Tri o Gymru oedd yn yr UK Lions y llynedd ond eleni dim ond Dafydd sydd o Gymru ymysg chwarewyr o Ogledd Iwerddon, Yr Alban a Lloegr.

Mae'n trafaeilio bob 6 wythnos i hyfforddi yn Derby neu Leicester gyda'r tim ac mae'r diwrnod hyfforddi yn ddiwrnod hir gyda'r trafeilio yno a nôl a hyfforddi caled am 6 awr.

Mae wedi cael y cyfle i chware hoci yn erbyn timoedd gorau Prydain o dan 16 (nid ydynt yn chware timoedd yr un oed a nhw er mwyn cael sialens). Bu'n chwarae y llynedd yng Nghaeredin, Belfast, a Sardinia yn erbyn timoedd gorau'r wlad a dod yn fuddugol. Eto i ddod mae twrnament yn Glasgow a Belfast cyn bod ei amser gyda'r UK Lions yn dod i ben. Mae wedi bod yn brofiad a hanner.

Mae Dafydd yn chwarae hoci i'r Clwb lleol, sef Clwb Dysynni, Tim hoci Ysgol Uwchradd Tywyn, Tim Gogledd Cymru ac i Northop Hall ac yn dilyn cwrs hyfforddiant 360 Hoci Cymru.




### Llwyddiannau

Llongyfarchiadau i Luned Rhys, Llanarmon, ger Chwilog – wyres Alun ac Enid Jones (Gwyddfor gynt) am ennill y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli. Dyma'r eildro yn olynol iddi ei hennill. Eleni derbyniodd y gadair gan y beirniad, yr actores Elan Llwyd. Mewn cystadleuaeth safonol roedd hi'n hael ei chanmoliaeth i gerdd Luned ar y teitl 'Rhyddid'. Yng nghyfarfod gwobrwyo'r ysgol yn gynharach yn 2016, enillodd Luned hefyd wobr Disgybl y Flwyddyn am ei gwaith. Da iawn Luned!

### Ysgol Sul Unedig Bow Street

Bu plant yr Ysgol Sul Unedig yn brysur iawn ar Ragfyr 11eg, gan eu bod wedi cyflwyno gwasanaeth yng Nghapel y Garn yn y bore ac yng Nghartref Tregerddan y prynhawn. Dyma lun ohonyn nhw wrth eu gwaith o ddifrif yn y Cartref.

### Cwis y capeli

Daeth 8 tîm ynghyd ym Morlan nos Fercher 11 Ionawr yng nghwis y Capeli -



Llongyfarchiadau i dîm Capel y Garn - yr enillwyr ; daeth Horeb, Penrhyn-coch yn ail a Charmel, Llanilar yn drydydd. Cafwyd noson hwyliog iawn. Yn y llun gwelir Phil Davies, y cwisfeistr yn cyflwyno y darian I'r Athro Gruffydd Aled Williams. Tim y Garn oedd yr Athro Gruffydd Aled Williams, Y Parchg Wyn Morris, Cynog a Llinos Dafis a thim Horeb y Parchg Judith Morris, Eirian Reynolds, Non Evans a William Howells.

### Capel y Garn

Nos Sul Rhagfyr 18fed, cynhaliwyd gwasanaeth y Gair a'r Geiriau yn y capel, dan arweiniad y bugail, y Parchg Wyn Morris. Daeth nifer dda ynghyd i ganu carolau ac i glywed geiriau tymhorol. Cyfeiliwyd i'r carolau gan ensemble pres dan arweiniad Mr Alan Phillips. Gwelir yma hefyd lun o'r triawd a gyflwynodd rai carolau, sef Dewi Hughes, Alan Wyn Jones a'r Parchg Wyn Rhys Morris. Roedd paned a mins-peis i bawb yn y festri wedyn.







# Gwobr Hollywood i ddogfen am ffotograffydd Rhyfel Fietnam

Mae rhaglen ddogfen sy'n dathlu gwaith a bywyd y ffotograffydd byd-enwog o Ruddlan, y diweddar Philip Jones Griffiths, wedi ennill gwobr fawreddog yn Los Angeles, gwobr *Hollywood International Independent Documentary Awards* am y ffilm ddogfen dramor orau. Darlledwyd y rhaglen arobryn **Philip Jones Griffiths: Ffotograffydd Rhyfel Fietnam** yn Chwefror y llynedd ar S4C, gyda gohebydd tramor y BBC Wyre Davies yn cyflwyno. Bwriad y gwobrau yw hyrwyddo a chydnabod gwaith cynhyrchwyr ffilmiau dogfen ar draws y byd. Mae'r gwobrau yn digwydd yn fisol, ac enillodd **Philip Jones Griffiths: Ffotograffydd Rhyfel Fietnam** wobr yng nghategori mis Rhagfyr.

Roedd y rhaglen ddogfen yn gyd-gynhyrchiad rhwng cwmni cynhyrchu Rondo Media, S4C a chwmni cynhyrchu o Dde Corea, JTV, Jeonju Television. Roedd y ffilm yn dogfennu'r hyn wnaeth Philip Jones Griffiths yn enwog, ei gyfnod fel ffotograffydd rhyfel yn Fietnam. Yn ystod y rhyfel tynnodd Philip rai o'r delweddau mwyaf graffig ac ingol, a darluniodd wlad ranedig oedd yn cael ei rheibio gan ymyrraeth wleidyddol, a'i malurio gan ymladd mewndirol. Mae gwaith Philip yn parhau i ysbrydoli hyd heddiw ac yn enghraifft wych o ffotonewyddiaduraeth.

Dywedodd Llion Iwan, Comisiynydd Ffeithiol S4C, "Llongyfarchiadau i gwmni cynhyrchu Rondo Media ar eu llwyddiant rhyfeddol. Mae'r lluniau dynnodd Philip yn ystod, ac wedi Rhyfel Fietnam yn parhau i daro tant gyda phobl heddiw, ac yr un mor berthnasol yn ein hoes ni. Fel darlledwr cenedlaethol Cymru roedd hi'n bwysig bod S4C yn talu teyrnged a dathlu ei waith drwy gomisiynu'r rhaglen ddogfen arbennig hon."

Dywedodd Gareth Williams, Prif Weithredwr Cwmni Cynhyrchu Rondo Media: "Rydym yn falch iawn o fod wedi ennill y wobr ryngwladol yma am raglen i S4C yr ydym yn hynod o falch ohoni. Hoffem longyfarch yn enwedig y tîm cynhyrchu Caryl Ebenezer (o Bow Street gynt) a Luned Phillips (Tal-y-bont gynt). Mae'n enghraifft arbennig o safon cynyrchiadau ffeithiol Rondo, a chynhyrchiad erbyn hyn sydd hefyd yn



cael ei ddosbarthu ledled y byd gan BBC Worldwide.

"Rydym yn falch eithriadol o'r bartneriaeth sydd wedi ei meithrin gyda chwmni JTV yn Ne Corea – ein partner cynhyrchu ar y rhaglen hon. Roeddem hefyd yn ffodus iawn o gefnogaeth merched y ffotograffydd - Katherine Holden a Fanny Ferrato, y cwmni Magnum Photos, cyfranwyr nodedig fel John Pilger, Don McCullin a Noam Chomsky. Rydym yn hynod o ddiolchgar hefyd i'r cyflwynydd Wyre Davies, a oedd yn amlwg wedi ei gyffwrdd gan hanes y ffotograffydd hynod hwn a chan erchylltra rhyfel sy'n dal i effeithio cymdeithas Fietnam heddiw."




## Côr Cymru 2017

Un o'r cwestiynau yng Nghwis y capeli ym Morlan yn ystod y mis oedd 'Pa gôr enillodd y gystadleuaeth Côr Cymru 2016?' Gwyddai y cystadleuwyr craff nad oedd cystadleuaeth yn 2016 gan mai pob yn ail flwyddyn y cynhelir y gystadleuaeth. Ond golyga hyn ei bod yn amser cystadleuaeth 2017 ac mae rhestr y corau ddaeth drwodd newydd eu cyhoeddi.

**CHWEFROR 18-19** Dyddiau Sadwrn a Sul Rowndiau cyn-derfynol Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau. Tocynnau ar gael am ddim o 10.00 bore Llun 23 Ionawr trwy ffonio 029 2022 3456 neu ebostio corcymru@rondomedia.co.uk **Ni fydd Côr Cymru ar y nos Wener eleni – bydd dwy sesiwn ar y Sadwrn a'r Sul.**

**Corau Ieuenctid**
Coda
Côr Cytgan Clwyd
Côr Merched Sir Gâr
Côr y Cwm

**Corau Meibion**
Bois Ceredigion
Bois y Castell
Côr Meibion Machynlleth
John's Boys

**Corau Plant**
Côr Iau Ieuenctid Môn
Côr Ieuenctid Môn
Côr y Cwm
Ysgol Gerdd Ceredigion

**Corau Merched**
Ysgol Gerdd Ceredigion

**Corau Cymysg**
CF1
Côr ABC
Côr Dre
Côrdydd

**EBRILL 8-9** Dyddiau Sadwrn a Sul Rowndiau terfynol Cor Cymru Cynradd 2017 a Cor Cymru 2017 yng Nghanolfan y Celfyddydau. Tocynnau ar gael am ddim o 10.00 bore Llun 6 Mawrth trwy ffonio 029 2022 3456 neu ebostio corcymru@rondomedia.co.uk

**CÔR CYMRU CYNRADD**
**Ffeinal nos Sadwrn 08.04.17**
Ysgol Gymraeg Teilo Sant, Llandeilo
Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn, Rhondda
Ysgol Iau Llangennech
Ysgol Pen Barras, Rhuthun

## Colofn Enwau Lleoedd

Mae'n anodd peidio â sylwi cynifer o enwau lleoedd yn nghyffiniau Cors Fochno sy'n cynnwys yr elfen *ynys*.

Tebyg mai *Ynys-las* a'i thwyni tywod, neu westy moethus a gwarchodfa adar *Ynys-hir* yw'r enwocaf ohonynt, ond dyma rai o'r enwau eraill niferus:

*Ynys Tachwedd*, *Foel Ynys*, *Ynys Fergi*, *Ynys Capel*, *Neuadd yr Ynys*, *Ynys Fechan*, *Ynys Fach*, *Ynys Greigiog*, *Ynys Eidiol*, *Ynys Edwin*, *Ynys Tudur*, ac *Ynys Pennal* (y tu draw i Afon Dyfi).



*Map Degwm Llanfihangel Genau'r-glyn o wefan prosiect Cynefin: cynefin.cymru*

Byddwn yn meddwl heddiw am *ynys* fel 'darn o dir wedi ei amgylchynu gan ddŵr y môr' (megis *Ynys Bŷr* neu *Ynys Enlli*) ond mewn gwirionedd, gall hefyd gyfeirio at 'dir wedi ei amgylchynu gan ddŵr cors neu afon'.

Yn y cyfnod cyn traenio Cors Fochno, ac yn enwedig ar lanw uchel, mae'n hawdd dychmygu'r *ynysoedd* hyn wedi eu hamgylchynu (er nad yn gyfan gwbl efallai) gan ddŵr.

Yr un ystyr a welir i *ynys* yn yr enwau *Ynysberfedd* ac *Ynys-y-bont* ar gwr Cors Caron, ger Swyddffynnon.

Â dychwelyd i Gors Fochno, mae un enw, *Ynys Tudur*, nad yw ei leoliad ar lan un o ragnentydd Afon Dyfi, y tu hwnt i ffiniau'r gors, yn cyd-fynd â'r dehongliad hwn.

Dangosodd Ifor Williams yn ei gyfrol *Enwau Lleoedd* (t. 29-30) y gall *ynys* gyfeirio hefyd at ddoldir neu wastatir yn ffinio â dŵr. Byddai'r esboniad hwnnw yn bosibl yn achos *Ynys Tudur*, ac yntau wedi ei leoli ar fin Afon Ddu.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD**

**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# Cymdeithas Cyfeillion Cerddorion Ifanc Ceredigion

Mae'r sefydliad elusennol uchod yn codi arian i gefnogi cerddorion ifanc ysgolion Ceredigion. Caiff yr holl arian sy'n cael ei godi drwy dâl aelodaeth a gwahanol weithgareddau ei ddefnyddio i brynu offerynnau ac offer cerddorol i'w defnyddio gan gerddorion ifanc y sir, o dan oruchwyliaeth Gwasanaeth Cerdd Ceredigion. Yn ddiweddar maent wedi prynu 9 corned, 4 ffliwt, 3 chlarinêt, 3 telyn côl, 3 fiola Messina, 6 chorn tenor, 2 gas clarinêt, 2 gorn Ffrengig, 2 obo, 1 clarinêt bas a desg sain aml-drac.

I ddathlu 30 blwyddyn o gefnogi'r Gwasanaeth Cerdd, maent wedi gosod her newydd eleni. Ar nos Iau, 6 Gorffennaf, bydd cyfle unwaith-ac-am-byth i glywed *Ail Wynt*. Bydd ensemble o tua 30 offerynwr yn perfformio yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth, yn ystod Proms Cynradd Ceredigion; aelodau o'r Cyfeillion ac eraill sy'n awyddus i'w cefnogi. Dyma rai o'r enwau - Rhys Taylor (Bas dwbl), Shân Cothi (Trombôn), Nia Marshalsay (Ffliwt), Gwawr Edwards (Clarinet), Aneirin Hughes (Timps), Elen Pen-cwm (Cornet), Sara Edwards (Clarinet), Caryl Gruffydd Roberts (Ffidil), Owen Roberts (Cello), Angharad Fychan (Ffliwt), Rachel Gregory (Corn), Jacky Hassan (Baswn), Mari Grug (Baritone) ac Elin Jones AC (Cornet). **Y rheol**: rhaid dysgu offeryn cerdd o'r newydd. (Ni chaniateir canu offeryn a ddysgwyd yn y gorffennol!)

Gobeithiant y bydd modd i'r cyhoedd gefnogi'r fenter gyffrous hon drwy eu noddi. Beth am eu cefnogi drwy ddod yn aelod o Gymdeithas Cyfeillion Cerddorion Ifanc Ceredigion: y tâl aelodaeth blynyddol yw £10, ceir ffurflen aelodaeth yma: http://www.ceredigionmusicservice.org.uk/documents/

# Hel Calennig

Pan holwyd eleni oedd yn iawn mynd i hel calennig ar fore Sul bu *y Tincer* yn holi. Soniwyd fod arfer ym Mhenrhyn-coch ar un adeg o beidio mynd allan pan oedd dydd Sul yn ddydd Calan, a fod rhai wedi bod yn dod ar fore Llun y blynyddoedd hynny. Pan holwyd Tecwyn Vaughan Jones-cyn aelod staff o Amgueddfa Werin Cymru - dyma'i ateb.

"Yn ôl Elizabeth Reynolds (mam Idris Reynolds), Brynhoffnant, c. 1900's; Mary Thomas, Ffair Rhos c. 1890's a Kate Davies, Llandysul c. 1890's... pobl y bum yn eu cyfweld yng Ngheredigion ddiwedd y 1970au ac yn holi am Hel C'lennig fasan nhw BYTH wedi mynd i hel C'lennig o gwmpas tai petai dydd Calan ar y Saboth... ond mi fasan nhw yn cael gofyn i deulu etc ... ond ddim mynd rown tai... roedd y capeli yn gwgu ar yr arfer beth bynnag a basa mynd o gwmpas tai yn 'halogi'r Saboth' yn ol Kate Davies. Sgen i ddim tystiolaeth o Aberystwyth na Phenrhyn-coch . Chlywais i ddim am neb yn mynd o gwmpas y dydd Llun"

Yn ddiddorol fu neb o amgylch Penrhyn-coch eleni - ond nid am y rheswm uchod mae'n siwr. Beth yw atgofion y rhai hŷn ohonoch am fynd ar y Sul? Byddai'n ddifyr clywed. (Gol.)

# Gwirfoddoli yn Zanzibar

Roeddwn wedi penderfynu gwneud prosiect gwirfoddoli yn Affrica ar ôl graddio o'r brifysgol ym Mis Mai. Des i o hyd i brosiect dysgu plant ac oedolion yn Zanzibar ac ar ôl gweithio dros yr haf i godi arian i fynd, y cam nesa oedd pacio bag a chael trên i Lundain i ddal yr awyren. Ar ôl siwrne o 13 awr cyrhaeddais Stonetown yn Zanzibar. Roedd dwy awr o siwrne rhwng Stonetown a'r pentre bach o'r enw Jambiani yn ne ddwyrain yr ynys lle byddwn i'n aros.

Cyrhaeddais y llety, sef tŷ oedd ar y traeth, yn llythrennol cwpwl o fetrau o'r môr. Roedd bwa o ddail palmwydd dros y fynedfa a chath fach yn torheulo o flaen y bwrdd du gyda'm henw i wedi'i ysgrifennu arno i fy nghroesawu i'r prosiect. Roedd yn rhaid imi ofyn i'r gyrrwr - Kaiza - 'Is this where I'll be living?!' mewn anghrediniaeth llwyr am fod y lle mor ddelfrydol! Am fy mod wedi cyrraedd yn gynnar yn y bore roedd diwrnod cyfan o'm mlaen i. Ar ôl cael fy nghroesawu gan reolwr y prosiect roedd dewis gen i, sef cael diwrnod o ymlacio neu fynd i ddosbarth efo un o'r gwirfoddolwyr eraill. Gan fy mod yn awyddus i weld mwy o'r pentre penderfynais fynd i ddosbarth oedolion ar ôl cinio. Roedd y gwirfoddolwr yn dysgu dosbarth Masai, sef llwyth o dir mawr Tanzania.

Ar y diwrnod cyntaf roedd bachgen newydd wedi ymuno â'r dosbarth oedd yn methu darllen nac ysgrifennu - yn unrhyw iaith! Am ei fod gymaint y tu ôl i'r disgyblion eraill roedd angen sylw unigol







arno, felly mi fues i'n iste yn ei ymyl am awr a hanner yn mynd trwy'r wyddor Swahili, gan ddarllen y llythrennau allan yn uchel ac yna'u hysgrifennu yn ei lyfr. Erbyn diwedd y wers roedd yn gallu darllen ac ysgrifennu'r wyddor yn ogystal ag ysgrifennu ei enw. Roedd yn deimlad bythgofiadwy gwybod mai fi oedd wedi'i ddysgu i wneud y pethau hyn, pethau a allai un diwrnod ei helpu i gael swydd, ond a fyddai yn bendant yn cyfoethogi ei fywyd.

Dim ond un diwrnod sydd angen ei dreulio yn un o bentrefi Zanzibar i sylweddoli pa mor hynod o gyfeillgar yw'r bobl leol. Mae ganddyn nhw gymaint o ddiddordeb yn eich bywyd a phawb mor awyddus i wneud ffrind newydd. Roedd fy chwe wythnos yn Jambiani yn ysbrydoliaeth. Mae'r ffordd o fyw ar y baradwys yma o ynys yn hamddenol ac yn hapus. Er gwaetha'r tlodi mae agwedd y bobl leol yn hynod o bositif ac maen nhw'n fodlon iawn eu byd. Mi fydd rhan fach o fy nghalon yn Jambiani am byth.

**Mari Healy**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST (12.30-2.00 & 4.30-6.00, dydd Gwener, 27 Ionawr):** cyfle i fyfyrio a chynnau cannwyll dros ddioddefwyr hil- laddiadau.

**CRISTNOGAETH 21 CYLCH MORLAN: BYW I BWRPAS (7.30, nosweithiau Mercher, 18 Ionawr-22 Chwefror):** chwe chyfarfod, pob un yn edrych ar thema wahanol. Dewch i rannu ac ystwytho'r meddwl.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
**morlan.cymru**
*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

*Trefnwyr Angladdau*
***C T Evans***
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**








# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Hirnant

# Pantomeim

Bu nifer o blant ac ieuenctid yr ardal yn rhan o bantomeim blynyddol Canolfan y Celfyddydau yn Ionawr. Jack a'i goeden ffa oedd y cynhyrchiad ac un o Bow Street gymerai ran Jack.



Cari Morgan-Williams a Lucy Morgan-Williams o Bow Street, Cerys Hurford ac Evie Keyworth o Benrhyn-coch



Jordan Lloyd Jones, Bow Street (Jack) a Somme Mars Malik (Jill)



Miriam Llwyd Davies Pentan, Llandre


*Crefftau Pennau*

*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf Awst a Medi

01970 820 050

Pennau

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

# Ysgol Pen-llwyn

Bu diwedd tymor y Nadolig yn un prysur iawn ym Mhen-llwyn,fel ym mhob Ysgol arall !

Fel y gwelwch bu'r plant yn brysur yn cynhyrchu pob math o nwyddau i'w gwerthu yn y Ffair grefftau Nadolig. Gwelwyd llwythi o gardiau, calendrau, canhwyllau, dynion eira a llawer mwy ar werth yn neuadd yr Ysgol a chasglwyd swm teilwng o arian ar y noson.

Cafwyd cinio Nadolig blasus yn yr Ysgol ar y dydd Iau a diolch yn fawr i Cathy a'i thîm am baratoi ar ein cyfer gydol y bore. Cawsom ymweliad gan Sion Corn a buom yn canu 'Pwy sy'n dwad dros y bryn ?' cyn iddo agor ei sach a rhannu anrhegion i bob un o'r plant. Yn ychwanegol cafodd pob plentyn 'selection box' gan Siop y Pentref i ddiolch am ganu carolau ar noson goleuo'r goeden tu allan i'r siop.

Daeth cynulleidfa dda at ei gilydd i'n gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Pen-llwyn pryd y cawsom ein atgoffa o wir ystyr y Nadolig trwy gyfrwng carolau hen a newydd a darlleniadau. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i ymlacio drannoeth wrth wylio Sioe Cyw yn Ysgol Penweddig tra bu Cyfnod Allweddol 2 yn y sinema yn gwylio 'The secret life of pets'.

Roedd yn rhaid ffarwelio a aelod o staff cyn diwedd y tymor, sef gyda Miss Lauren Parry sydd bellach wedi derbyn swydd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd yno. Ar yr un pryd rydym yn croesawu Mrs Emma Parr - Davies yn ôl i'r Ysgol wedi genedigaeth ei mab bach Harri.

Yna ar y dydd Gwener olaf cawsom barti Nadolig yn neuadd yr Ysgol, digonedd o fwyd i'w fwyta a chyfle i wisgo ein siwmperi Nadolig lliwgar. Diweddglo hapus i ddiwedd y tymor.













## Ysgol Craig yr Wylfa

**"Santa ar Streic!"**

Yn yr wythnos olaf o ysgol, cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yr Ysgol yn neuadd y pentref, gan i'r ysgol gyflwyno cynhyrchiad o'r enw, "Santa ar Streic". Perfformiodd y plant yn arbennig o dda! Braf oedd gweld y neuadd yn llawn dop!

**Drama'r Geni a Chanu Carolau**

Ar ddiwrnod olaf y tymor, cafwyd cyfle i fynd lawr i'r Eglwys i wneud amryw o weithgareddau yn yr Ysgol Sul ac i wylio a bod yn rhan o'r ddrama. Roedd yn llawer o hwyl, y plant (a'r staff) yn gyffrous ynghanol yr awyrgylch Nadoligaidd.

Yn y prynhawn, roedd yna gyfle i rieni a ffrindiau'r ysgol i ddod i'r ysgol i gael lluniaeth ysgafn ac i wrando ar y plant yn canu carolau. Diwrnod hyfryd i gael pawb yn y naws nadoligaidd!

**Croesawu Miss Edwards**

Am fod nifer y disgyblion sydd bellach yn mynychu Ysgol Craig yr Wylfa yn brysur gynyddu, mae'r ysgol yn falch o groesawu aelod newydd o staff, sef Fflur Edwards, sydd yn mynd i ddysgu dau ddiwrnod a hanner yr wythnnos. Croeso atom!







inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Ysgol Rhydypennau

### Cinio Nadolig

Yn dilyn y traddodiad blynyddol, cynhaliwyd cinio Nadolig i henoed yr ardal ar ddydd Sadwrn cyntaf fis Rhagfyr yn neuadd yr ysgol. Bu Mrs Wendy Jones a'i staff yn brysur iawn yn paratoi'r wledd i 60 o bobl eiddgar iawn. Cytunodd pawb mai dyma'r cinio gorau eto! Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol.

Ar y 14eg o Ragfyr, bu Mrs Jones a staff y gegin yn brysur eto yn paratoi cinio Nadolig i'r plant a'r staff. Yn ystod y wledd, cyflwynwyd anrhegion o ddiolch i holl staff y gegin am eu gwasanaeth a'r bwyd blasus gydol y flwyddyn.

### Perfformiadau'r Nadolig

Cafwyd cyngerdd ardderchog gan Yr Uned Feithrin cyn diwedd y tymor. Fe berfformiodd y plant stori'r geni deirgwaith; yn gyntaf i'r ysgol gyfan ar y 6ed o Ragfyr ac yna i'r rhieni ar y 6ed a'r 7ed o Ragfyr. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn i'r tri achlysur ac roedd perfformiadau'r plant yn wych!

Cynhaliwyd Sioe Nadolig blynyddoedd 1-6 eleni yn Neuadd y pentref ar y 7fed a'r 8fed o Ragfyr. I agor y noson, perfformiodd blwyddyn 1 a 2 'Rhoi a Derbyn'. I ddilyn, perfformiodd blynyddoedd 3,4,5 a 6 'Carolau yr Anifeiliaid'. Cafwyd gwledd o actio a chanu yn ystod y ddau berfformiad o flaen cynulleidfa werthfawrogol iawn. Hoffai'r ysgol ddiolch i bwyllgor y neuadd am y cydweithrediad a'r cymorth yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiadau.

### Band

Ar yr 16eg o Ragfyr fe aeth Mr Allan Philips, athro peripatetig pres y sir, â band pres yr ysgol i ddiddanu henoed Cartref Tregerddan. Mae'r ymweliad hwn yn ddigwyddiad traddodiadol bellach ac mae'r henoed yn disgwyl yn eiddgar i glywed dawn yr offerynwyr. Diolch i Mr Phillips am ei arweiniad a'i barodrwydd i ddangos y talentau lleol yn y gymuned.

### Partïon

Bu'r plant yn ffodus iawn yn ddiweddar gan eu bod wedi cael y cyfle i fwynhau dau barti Nadolig yn ystod yr un wythnos! Ar y 13eg o Ragfyr, trefnwyd parti gan bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol rhwng 6:30 a 8:00y.h. Roedd y parti yn agored i bawb yn yr ysgol a chynhaliwyd y dathliadau yn neuadd yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r noson, i Mrs Wendy Jones am y lluniaeth ac yn olaf diolch i Siôn Corn am dreulio ychydig o'i amser prin i ddosbarthu anrhegion cynnar i'r plant ffodus ar y noson.

Ar y 15fed, trefnwyd parti Nadolig i'r holl blant yn ystod oriau'r ysgol. Yn ystod y miri, cafodd y plant gyfle i fwynhau gwledd o fwyd blasus a gorffennwyd y dathliadau gyda gêmau traddodiadol yr ŵyl.

### Clwb Cant

Canlyniad Rhagfyr:
1af-£50-Jenny Jones-Mostar, Bow Street.
2il-£30-Julia Taylor- 26, Cae'r Odyn, Bow Street.
3ydd-£20-Luke Grover-16, Carregwen, Bow Street.

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!


Mwynhau Cinio Nadolig.


Blwyddyn 1 a 2 yn perfformio 'Rhoi a Derbyn'.


Blwyddyn 3,4,5, a 6 yn perfformio 'Carolau yr Anifeiliaid'.


Yr Uned Feithrin yn perfformio stori'r geni.

# Ysgol Penrhyn-coch

### Dathlu'r Ŵyl yn yr eglwys

Mwynheuodd y plant eu hymweliad i weld yr holl coed Nadolig yn yr eglwys. Creodd plant yr Ysgol addurniadau a oedd yn seiliedig ar y gân 'Stori'r preseb'.

Aeth côr o blant gyda Miss Lawrence i ganu yn y gwasanaeth plygain cyn diwedd y tymor; braf gweld hen draddodiad yn parhau.

Cafwyd gwasanaeth Cristingl hyfyrd o dan ofalaeth Parchedig Lyn Dafis ar brynhawn Dydd Gwener olaf y tymor. Roedd yr eglwys yn llawn a phawb wedi gwrnado ar neges yr wyl.

### Sioe Nadolig

Cafwyd dau berfformiad eleni yn Neuadd y Penrhyn a braf gweld y neuadd yn llawn o deuluoedd a ffrindiau'r Ysgol. 'Nadolig yng ngwlad y Rwla'oedd perfformiad plant y Cyfnod Sylfaen a 'Pry ar wal y stabal' oedd sioe Cyfnod Allweddol 2. Diolch i'r staff am eu gwaith hyfforddi ac i'r plant am wneud eu gorau!

### Parti a Siwmperi Nadolig

Fel pob blwyddyn arall trefnwyd y parti gan griw gweithgar o rieni, cafwyd digon o fwyd, gwelwyd siwmperi o bob math ac wrth gwrs cawsom ymwelydd arbennig sef Siôn Corn! Fe deithiodd Siôn Corn mewn modd gwahanol eleni!

### Ennill cystadleuaeth

Llongyfarchiadau i Steffan Gillies - disgybl o flwyddyn 3 - wedi iddo ennill y brif wobr gan gwmni Tesco am gynllun ar y thema 'Rwy'n caru Aber 'sydd erbyn hyn ar fagiau smart iawn! Cafodd £50 i wario yn y siop a chafodd yr ysgol £500! Da iawn ti am gystadlu Steffan!









GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580


D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Tasg y Tincer

Blwyddyn Newydd Dda i chi, holl blant *Y Tincer*, a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu a'r gwyliau. Fy adduned i am eleni yw bwyta llai o bethau melys ... tipyn o gamp, am mai siocled yw fy hoff beth! Diolch i Mari Aerona, Penrhyn-coch; Anest Erwan, Bow Street; Dylan Rhys Herron, Bow Street; Lewis Ashton ac Einion Davies, Llanilar, am liwio'r llun mor hyfryd y mis diwethaf. Dy enw di, Dylan, ddaeth o'r het yn gynta y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr!

Wyddoch chi mai newydd ddathlu'r Calan mae rhai ardaloedd yng Nghymru, a hynny ar 13 Ionawr? Ac roedd hi'n 6 Ionawr ar yr hen Fari Lwyd yn dod ar ei thaith i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bobl Llandre! Dyw'r Chineaid ddim yn dathlu'r Flwyddyn Newydd tan 28 Ionawr. Mae hon yn ŵyl bwysig iawn iddyn nhw. Yn ôl y chwedl, gofynnodd Bwdha i'r anifeiliaid ddod i'w gyfarfod ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn. Daeth 12 anifail ato ac enwodd Bwdha flwyddyn ar ôl pob un. Blwyddyn y ceiliog yw hi yn 2017. Bydd y Chineaid yn dathlu trwy gynnau tân gwyllt, creu dreigiau o sidan a bambŵ, a chael gwledd foethus am hanner nos. Dymunwch Flwyddyn Newydd Dda i'ch ffrindiau gan ddweud 'Kung hei fat choi!' ar 28 Ionawr!

Cofiwch ddefnyddio eich creons mwya llachar wrth liwio llun y teulu Chineaidd yn mwynhau'r wledd. Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Chwefror 1af. Ta ta tan toc!



Dylan



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
*Rhif 395 | IONAWR 2017*